**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS(2)-03-03(p.2a)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2003**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Adolygiad Polisi - Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Bynciau Posibl**

**Papur Atodol - Ymatebion a ddaeth i law ar ôl y dyddiad cau**

1. Mae'r papur hwn yn atodiad i bapur HSS(2)-03-03(p.2) ac yn hysbysu'r Pwyllgor am ymatebion a ddaeth i law ar ôl y dyddiad cau ar 8 Gorffennaf.

2. Dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych wrth Glerc y Pwyllgor na fyddent yn gallu ymateb erbyn y dyddiad cau oherwydd nad oedd y Bwrdd yn cyfarfod tan 9 Gorffennaf. Felly maent wedi argymell y gellid ystyried y pynciau a ganlyn:

- Maeth *(i gynnwys popeth yn hytrach na Bwyd Ysbyty yn unig)*
- Gwella iechyd yng Nghymru yn gyffredinol
- Comisiynu mewn perthynas â Phobl Hŷn *(gan gyfeirio'n benodol at y Strategaeth Pobl Hŷn a Chomisiynydd Pobl Hŷn)*
- Niwroleg *(Gwasanaethau ledled Cymru)*
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Adolesent Cymru-gyfan (CAMHS) *(Gwasanaethau neu ddiffyg gwasanaethau ledled Cymru)*

3. Daeth tri ymateb ychwanegol i law ar ôl y dyddiad cau a bydd rhaid i'r Aelodau benderfynu a ddylid eu hystyried. Dyma nhw:

**Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych**

- Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu - edrych ar faterion sy'n ymwneud ag argaeledd staff clinigol (meddygol, nyrsio ac eraill).

**Cymdeithas y Strôc**

- Gofal strôc, gan gynnwys llwybrau gofal strôc a Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol strôc o fewn y strategaeth pobl hŷn

**Pensiynwyr Cymru**

- Gwasanaethau ar gyfer cleifion sy'n dioddef Lymphoedema.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**14 Gorffennaf 2003**